**Ddoe a Heddiw – Adroddiad ar Ymchwiliad i'r Amgylchedd Hanesyddol**

**Diweddariad ar y cynnydd yn erbyn yr argymhellion – Ionawr 2021**

**Argymhelliad 1.** Dylai Cadw bellach flaenoriaethu'r gwaith o gyflwyno'r Cytundebau Partneriaeth Treftadaeth.

Ymateb cychwynnol: Derbyn

Bydd cytundebau partneriaeth treftadaeth yn dod â pherchnogion, awdurdodau cydsynio a phartïon eraill â diddordeb ynghyd i greu cynlluniau rheoli hirdymor ar gyfer asedau hanesyddol. Bydd y cytundebau'n cynnwys rhaglenni gwaith y cytunwyd arnynt gyda'r heneb gofrestredig angenrheidiol a/neu ganiatâd adeiladau rhestredig.

Yn anffodus, mae datblygu'r fframwaith ar gyfer y cytundebau ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill wedi cymryd llawer mwy o amser nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, rwy'n falch bod ymgynghoriad cyhoeddus deuddeg wythnos ar y rheoliadau a chanllawiau drafft sy'n ofynnol ar gyfer cytundebau partneriaeth treftadaeth wedi'i lansio ar 18 Ionawr 2021.

Er na fydd y rheoliadau'n cael eu gwneud yn nhymor y Senedd hon, rydym yn hyderus y cânt eu gwneud yn 2021.

**Argymhelliad 2.** Yn ystod y flwyddyn, dylai Cadw fod yn fwy eglur ynghylch y system o hysbysiadau cadwraeth yn y dyfodol.

Ymateb cychwynnol: Derbyn

Fel yr amlinellwyd yn ymateb cychwynnol Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd ymchwil i lywio'r gwaith o ddatblygu hysbysiadau cadwraeth. Daeth yr ymchwil hwnnw i'r casgliad y gallai hysbysiadau cadwraeth fod yn ddatgymhelliad i ddarpar berchnogion achub adeiladau rhestredig sydd mewn perygl. Cynigiodd nifer o randdeiliaid safbwyntiau a oedd yn atgyfnerthu'r casgliad hwn.

Nododd yr adroddiad ymchwil rai camau gweithredu anneddfwriaethol y gellid eu cymryd i gefnogi'r ymdrechion presennol i ddelio ag adeilad rhestredig sydd mewn perygl. O ganlyniad, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, cynhaliodd Cadw nifer o weithdai gorfodi adeiladau rhestredig ar gyfer awdurdodau lleol. Roedd y sesiynau hyn, a gafodd gryn groeso, yn gwella gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth swyddogion drwy ddarparu cyfarwyddyd ar y ddeddfwriaeth a'r pwerau gorfodi perthnasol sydd ar gael i awdurdodau lleol a thrwy rannu arferion gorau ar draws ardaloedd awdurdodau lleol.

Mae cydweithwyr ym meysydd adfywio a chynllunio tai wedi darparu hyfforddiant tebyg i awdurdodau lleol ar bwerau cyffredinol eraill sydd ar gael i ddelio ag eiddo sydd wedi'i esgeuluso ac eiddo gwag, a all gynnwys adeiladau rhestredig.

Yn ystod y misoedd diwethaf, dyrannwyd cyfrifoldeb i un o arolygwyr adeiladau hanesyddol Cadw am ddatblygu'r dull o ymdrin ag adeiladau sydd mewn perygl, gan ddefnyddio dadansoddiad o ddata o arolwg cyflwr Cymru gyfan o adeiladau rhestredig a chysylltu ag awdurdodau lleol. Mae Cadw hefyd yn gweithio'n agos gydag adrannau eraill Llywodraeth Cymru i nodi cyfleoedd datblygu yn y dyfodol ar gyfer adeiladau rhestredig sydd mewn perygl, er enghraifft drwy'r Rhaglen Trawsnewid Trefi.

**Argymhelliad 3.** Gan fod statws Cadw yn y dyfodol wedi'i bennu bellach, dylai'r Gweinidog weithredu'r rhannau hynny o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol sy'n ymwneud â Phanel Cynghori ar yr Amgylchedd Hanesyddol, neu, os nad yw'n cytuno bod angen panel, dylai gynnig newidiadau i'r gyfraith bresennol.

Ymateb cychwynnol: Derbyn mewn egwyddor

Mae bwrdd Asiantaeth Fewnol Cadw wedi bod ar waith ers 1 Mai 2019. Ei gylch gwaith yw cefnogi, craffu a monitro cyfeiriad strategol, cynllun busnes a safonau Cadw. Mae adroddiad blynyddol cyntaf Cadw ers sefydlu'r Bwrdd wedi'i gyhoeddi. Mae'n rhoi trosolwg o waith a chyflawniadau Cadw yn 2019/2020.

Bwriad y Panel Cynghori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru oedd rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar faterion yn ymwneud â llunio, datblygu a gweithredu polisi a strategaeth. Gyda bwrdd Asiantaeth Fewnol Cadw ar waith, nid oes rôl glir i'r Panel Cynghori fel y rhagwelwyd yn Neddf 2016.

Os bydd cyfle deddfwriaethol priodol yn codi, byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried diddymu'r darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydlu Panel Cynghori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru.

**Argymhelliad 4.** Dylid cadw llygad ar effeithiolrwydd y rhestr statudol o enwau lleoedd hanesyddol, gyda'r bwriad o gyflwyno diogelwch ychwanegol os nad yw'r rhestr bresennol yn effeithiol.

Ymateb cychwynnol: Derbyn mewn egwyddor

Ers ei lansio yn 2017, mae Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru wedi dyblu o ran maint i gynnwys bron i 700,000 o gofnodion. Mae ei guradur llawn amser, sy'n cael ei gyflogi gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, yn gyfrifol am ehangu'r rhestr a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o enwau lleoedd hanesyddol. Mae wedi gweithio mewn partneriaeth â staff o Lywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i ymgysylltu â swyddogion enwi a rhifo strydoedd awdurdodau lleol i'w gwneud yn ymwybodol o'r Rhestr ac adnoddau ategol eraill. Mae hefyd wedi gallu cynorthwyo nifer o awdurdodau lleol i nodi enwau hanesyddol priodol ar gyfer eiddo a strydoedd newydd.

Mae ymwybyddiaeth o bwysigrwydd enwau lleoedd hanesyddol yn sicr wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Fel rhan o'r gwaith datblygu ar gyfer Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, rhoddodd Llywodraeth

Cymru ystyriaeth ddifrifol i ddiogelu enwau lleoedd hanesyddol yn ffurfiol. Ar ôl dadansoddi gwahanol opsiynau, y casgliad oedd y byddai diogelu o'r fath yn gostus (yn gofyn am gyfundrefnau cydsynio, gorfodi ac apelio), yn anodd iawn eu gorfodi ac y byddent o bosibl yn codi materion hawliau dynol o ran enwau tai ac eiddo. Fodd bynnag, rydym yn parhau i adolygu ein polisïau ar gyfer enwau lleoedd Cymraeg. Rydym yn casglu tystiolaeth i lywio ein hystyriaeth o opsiynau yn y dyfodol, a allai gynnwys rhaglenni lleol, codi ymwybyddiaeth y cyhoedd neu, os oes angen, deddfwriaeth.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Llywodraeth gadw'r Ddeddf dan adolygiad ac adolygu ei heffaith yn ffurfiol ar ôl iddi fod ar waith am bum mlynedd.

Ymateb cychwynnol: Derbyn

Adolygir darpariaethau Deddf 2016 yn rheolaidd ac mae'n amlwg bod rhai yn gweithio'n arbennig o dda, megis ymgynghori, diogelu ac adolygu dros dro ar gyfer dynodiadau newydd a'r broses cydsyniad henebion cofrestredig symlach.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae nifer o hysbysiadau stop dros dro wedi'u cyflwyno i atal difrod i rai o'n henebion cofrestredig pwysicaf yng Nghymru. Er mai gyda gofid y defnyddiwyd y pwerau hyn, maent wedi bod yn effeithiol o ran diogelu ein henebion cofrestredig rhag gwaith anawdurdodedig. Cyflwynwyd darpariaethau eraill i'r Ddeddf fel rhwystrau, gan wybod mai anaml y byddent yn cael eu defnyddio.

Mae rhai darpariaethau, megis y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol, wedi bod yn fwy heriol na'r disgwyl i'w cyflwyno. Mae ffin pob parc a gardd wedi'i hadolygu cyn ymgynghori â'r perchennog a'r meddiannydd. Mae hyn wedi cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd yn gyntaf, ond gwnaed cynnydd da a bwriadwn gychwyn y darpariaethau hyn yn 2021.

Bydd adolygiad ffurfiol yn cael ei gynnal pan fydd darpariaethau sylweddol y Ddeddf sy'n ymwneud â chytundebau partneriaeth treftadaeth a'r gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol wedi bod ar waith am ddigon o amser i fesur eu heffeithiolrwydd. Byddwn yn parhau i fonitro effeithiolrwydd darpariaethau eraill Deddf 2016 yn rheolaidd.

**Argymhelliad 6.** Dylai Cadw weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a phartneriaid eraill i annog y sector amgylchedd hanesyddol i efelychu gwaith yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i wneud y dulliau o reoli'r sector yn fwy ecogyfeillgar.

Ymateb cychwynnol: Derbyn

Mae Cadw yn parhau i weithio'n agos gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a phartneriaid eraill yng Nghymru a ledled y DU ar fater newid yn yr hinsawdd. Mae'r ffocws presennol ar addasu. Er enghraifft, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn aelod allweddol o Is-grŵp Newid Hinsawdd Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol ochr yn ochr â Cadw. Cyhoeddodd yr is-grŵp Gynllun Addasu Sector yr Amgylchedd

Hanesyddol a Newid Hinsawdd yng Nghymru ym mis Chwefror 2020. Amcan y cynllun yw annog cydweithredu a gweithredu ar draws pob sector a fydd yn cynyddu ein gwybodaeth, yn cynyddu ein capasiti ac yn meithrin cadernid yr amgylchedd hanesyddol. Mae Cadw hefyd yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Historic England, Historic Environment Scotland a'r Adran Cymunedau yng Ngogledd Iwerddon ar nifer o weithgareddau cydweithredol, gan gynnwys datblygu prosiect mapio peryglon hinsawdd a cheisio sicrhau presenoldeb ar y cyd yn COP26.

Mae Cadw yn cysylltu â'r Ymddiriedolaeth Garbon i drafod llinell sylfaen allyriadau carbon ar draws ystâd ehangach Cadw fel modd o nodi cynllun gweithredu i leihau ein hôl troed carbon ymhellach erbyn diwedd 2030. Disgwylir adroddiad drafft a fydd yn amlinellu arbedion pellach posibl erbyn diwedd mis Ebrill 2021.

Mae prosiectau a gynhaliwyd gan Cadw wedi cynnwys gosod pympiau gwres ffynhonnell aer, toeau gwyrdd a gosod lampau LED helaeth mewn canolfannau ymwelwyr. Mae prosiectau cyfredol Cadw – Porth y Brenin Castell Caernarfon, caffi newydd arfaethedig Castell Caerffili, y ganolfan ymwelwyr yn Ysgubor Fawr Llys Tretŵr a fflatiau gwyliau newydd ym Mhorth Mawr – i gyd yn cynnwys ffitiadau ac offer arbed ynni.

Mae prosiectau eraill Cadw wedi cynnwys gweithio gyda menter Cenedl Ail-lenwi i sefydlu gorsafoedd ail-lenwi poteli dŵr mewn llawer o safleoedd Cadw sydd wedi'u staffio, a gweithio mewn partneriaeth â Trafnidiaeth Cymru ar gynllun hyrwyddo mynediad 2 am bris 1 i annog teithio ar drenau i safleoedd.

Cynhaliwyd trafodaethau hefyd gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ynghylch cynyddu bioamrywiaeth ar draws yr ystâd. Mae llawer o safleoedd mwy anghysbell Cadw yn ddelfrydol i greu cynefinoedd naturiol ar gyfer bywyd gwyllt. Mewn safleoedd mwy – Castell Caerffili a Safle Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon – mae newidiadau wedi'u cynllunio i gynyddu a gwella plannu er mwyn denu mwy o bryfed peillio a bywyd gwyllt.

**Argymhelliad 7.** Dylai Cadw gyhoeddi ei arolwg o dreftadaeth mewn perygl cyn gynted â phosibl ac yn y ffordd fwyaf cyflawn sy'n gydnaws â'r gofynion diogelu data.

Ymateb cychwynnol: Derbyn

Mae cyflwr adeiladau rhestredig yng Nghymru yn cael ei asesu gan Cadw ar gylch pum mlynedd, gan ddefnyddio methodoleg asesu safonol. Mae'r wybodaeth yn cael ei chadw ar Gofrestr Adeiladau mewn Perygl ddigidol sy'n hygyrch i bob awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae cyflwr yr holl henebion cofrestredig yng Nghymru yn cael ei asesu gan wardeiniaid henebion maes Cadw ar gylch deng mlynedd, gan ddefnyddio methodoleg asesu safonol. Mae'r wybodaeth yn cael ei chadw ar gronfa ddata Asedau Hanesyddol Cadw ac fe'i defnyddir gan swyddogion Cadw i roi cyngor rheoli i berchnogion a llywio penderfyniadau am grantiau.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu mynediad cyhoeddus i'r wybodaeth hon mewn modd sy'n gyson â diogelu data drwy wefan Cadw. Mae cronfa ddata Asedau Hanesyddol newydd wedi'i datblygu sy'n cynnal gwybodaeth ddynodi ddisgrifiadol. Yn ystod 2021 bydd hyn yn gysylltiedig â'r data arolwg cyflwr. Cydnabyddir bod cyflwr asedau hanesyddol yn adlewyrchiad o nifer o ffactorau, gan gynnwys llawer sydd y tu hwnt i reolaeth perchnogion a rheolwyr safleoedd megis bygythiadau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Mae angen ymdrin yn sensitif â chyhoeddi data, gan gyflwyno'r wybodaeth mewn modd sy'n gyson ag annog arferion gorau ac ochr yn ochr ag adnoddau ac arweiniad a all helpu perchnogion i reoli eu hasedau'n briodol.

**Argymhelliad 8.** Dylai Cadw ailddechrau rhoi grantiau i berchnogion adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig sydd mewn perygl. Gallai hyn ganolbwyntio'n arbennig ar y grwpiau a ganlyn:

- Adeiladau/henebion sydd mewn perygl.
- Gwneud adeiladau rhestredig yn fwy eco-gyfeillgar.

Ymateb cychwynnol: Derbyn mewn egwyddor

Gallaf gadarnhau bod Cadw wedi ailgychwyn ei raglen cyllid grant ar gyfer perchnogion adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig yn 2018/2019. Neilltuwyd cyllideb o £1.1 miliwn i'r rhaglen hon ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Cadw wedi canolbwyntio ei gymorth grant ar brosiectau sy'n sicrhau manteision uniongyrchol i gymunedau. Mae ei fuddsoddiad yn targedu'r gwaith o atgyweirio a gwarchod asedau sy'n cael eu defnyddio gan y gymuned neu sy'n darparu gwasanaeth cymunedol. Caiff adeiladau sydd mewn perygl eu blaenoriaethu lle mae defnydd ymarferol. Mae Cadw hefyd yn cefnogi sefydliadau'r trydydd sector sy'n hyrwyddo cadwraeth ac ailddefnyddio adeiladau hanesyddol er budd y gymuned, megis y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol a'r Heritage Trust Network.

**Argymhelliad 9.** Dylai Cadw sefydlu "rhaglen gydnerthedd" (ar sail gwaith Cyngor y Celfyddydau yn y maes hwn) i helpu perchnogion asedau treftadaeth dynodedig i'w gwneud yn fwy cynaliadwy'n ariannol.

Ymateb cychwynnol: Derbyn mewn egwyddor

Mae Cadw yn darparu grant refeniw blynyddol tuag at weithredu'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol yng Nghymru, sy'n cyflogi swyddog cymorth yng Nghymru, ac sy'n darparu cyngor, grantiau a benthyciadau, gan gynnwys grantiau hyfywedd prosiectau a datblygu prosiectau. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Cadw wedi ategu hyn gyda grantiau cyfalaf i gefnogi prosiectau a ariennir yn uniongyrchol gan y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol yng Nghymru.

**Argymhelliad 10.** Dylai’r Gweinidog ddarparu targedau manylach, amserlen glir ar gyfer cynnydd a cherrig milltir mesuradwy ar gyfer datblygu partneriaeth Cymru Hanesyddol. Disgwyliwn gael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd yn y maes hwn gan y Gweinidog yn y dyfodol.

Ymateb cychwynnol: Derbyn mewn egwyddor

Mae Grŵp Llywio Partneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol wedi cyfarfod dros 15 gwaith ers ei sefydlu yn 2017. Yn ogystal, mae cyfres o is-grwpiau wedi cyfarfod yn rheolaidd, i ystyried cydweithio ar draws nifer o feysydd gan gynnwys gwasanaeth cwsmeriaid, sgiliau, gweithgareddau masnachol a swyddogaethau cefn swyddfa. Er enghraifft, mae’r is-grŵp masnachol wedi rhannu arferion da ar frandio, partneriaethau a pherfformiad masnachol ac ymchwil. Mae’r is-grŵp gwasanaeth cwsmeriaid wedi cydweithio i ddatblygu fframwaith safonau gwasanaeth cwsmeriaid ar y cyd, a chael gafael ar, a rhannu, adborth gan gwsmeriaid. Mae’r is-grŵp sgiliau ar fin cychwyn ar archwiliad cydweithredol o sgiliau ar draws y Bartneriaeth – yn rhannol er mwyn nodi bylchau yn y ddarpariaeth a nodi cyfleoedd posibl ar gyfer rhaglenni hyfforddi ar y cyd yn y dyfodol. Mae partneriaid yn parhau i archwilio cyfleoedd ar gyfer mentrau dwyochrog, er enghraifft rhwng Cadw a’r Amgueddfa Genedlaethol, sydd â buddiannau cyffredin yng Nghaer Rufeinig Caerllion a Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon.

Un o gryfderau penodol y Bartneriaeth hyd yma fu cyfranogiad gweithredol cynrychiolwyr undebau llafur – yn y Grŵp Llywio ac yn yr is-grwpiau. Mae ysgrifenyddiaeth y Bartneriaeth yn cael ei chylchdroi rhwng aelodau, gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cyflawni’r gwaith ar hyn o bryd. Yn ystod y pandemig, mae’r grŵp wedi dod yn gyfrwng gwerthfawr ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arferion gorau, er enghraifft o ran rheoli atyniadau treftadaeth o dan gyfyngiadau COVID.

Ar hyn o bryd, mae’r Bartneriaeth yn adolygu ei gwaith hyd yma, a bwriedir cynnal gweithdy ar y cyd yn gynnar yn 2021. Bydd ffocws ar adnewyddu’r bartneriaeth, myfyrio ar gyflawniadau diweddar ond hefyd adnewyddu ymrwymiad cyffredin i gydweithio gwirioneddol ac effeithlon.

**Argymhelliad 11.** Dylai’r Gweinidog amlinellu cynllun ar gyfer annog a chefnogi’r bwriad i awdurdodau lleol gydweithio a gweithio ar draws ffiniau.

Ymateb cychwynnol: Derbyn

Mae Cadw yn gweithio’n ddiwyd i annog cydweithio rhwng awdurdodau lleol i ddiogelu a rheoli’r amgylchedd adeiledig hanesyddol yn wybodus drwy’r Fforwm Treftadaeth Adeiledig, sy’n cynnwys cynrychiolwyr o bob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae’r Fforwm hwn yn galluogi trafod arferion gorau a chyfleoedd i gydweithio o ran hyfforddiant a rhannu sgiliau. Yn ogystal, mae arolygwyr adeiladau hanesyddol Cadw yn gweithio gydag awdurdodau lleol ar lefel unigol a rhanbarthol, gan ddarparu arweiniad, hyfforddiant a mentora.

Darperir cyngor archeolegol mewn perthynas â chynllunio a rheoli treftadaeth drwy bedair Ymddiriedolaeth Archeolegol ranbarthol, pob un yn cwmpasu sawl awdurdod lleol. Darperir y cyllid ar gyfer y gwasanaeth hwn drwy gymorth grant gan Cadw a'r awdurdodau lleol, ac mae'n sicrhau cysondeb o ran cyngor a gwasanaeth ledled Cymru.

Mae cysylltiadau strategol a gweithredol cryf hefyd rhwng Cadw a'i sefydliadau treftadaeth cyfatebol sy'n gweithredu yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ar lefel strategol, mae gwybodaeth a chanfyddiadau yn cael eu rhannu'n rheolaidd, ac mae hynny wedi bod yn arbennig o fuddiol yn ystod y pandemig drwy helpu i lywio'r gwaith o dargedu cymorth ariannol. Yn weithredol, mae Cadw yn cymryd rhan mewn nifer o brosiectau trawsffiniol gan gynnwys Prosiect Rheoli Clawdd Offa aml-bartner (gyda Historic England ac awdurdodau lleol ar ddwy ochr y ffin) a chais prosiect Amgylchedd Hanesyddol Morol AHRC pedair gwlad.

**Argymhelliad 12.** Dylai Cadw hyrwyddo safleoedd nad ydynt yn rhai Cadw ar ei safleoedd ei hun yn well, a dylai eraill sy'n gwarchod safleoedd ac adeiladau hanesyddol, yn enwedig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac awdurdodau lleol, wneud yr un modd

Ymateb cychwynnol: Gwrthod

Yr ymateb gwreiddiol oedd gwrthod yr argymhelliad hwn gyda'r Gweinidog yn datgan fod 'Cadw eisoes yn gwneud llawer iawn i hyrwyddo safleoedd nad ydynt yn rhai Cadw. Fodd bynnag, dylid rhoi'r rhyddid iddo benderfynu ar ei flaenoriaethau marchnata parhaus ei hun. Hefyd, nid yw Cadw mewn sefyllfa i orchymyn sut mae eraill yn blaenoriaethu eu rhaglenni hyrwyddo.'

Fodd bynnag, mae Cadw wedi parhau i weithio mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru i hyrwyddo safleoedd ar y cyd lle y bo'n bosibl, yn fwyaf nodedig Gwaith Haearn Blaenafon, Pwll Mawr, Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru a Chaer a Baddonau Rhufeinig Caerllion.

Mae Cadw hefyd wedi gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gytundebau cyfatebol yng Nghonwy, Castell y Waun, Dinefwr a Chilgerran.

**Argymhelliad 13.** Dylai Cadw weithio (o fewn partneriaeth yr Amgylchedd Hanesyddol) gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i weld sut y gellir defnyddio gwybodaeth sylweddol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol am y farchnad i:

- gynyddu refeniw ar draws sector yr amgylchedd hanesyddol; a
- gwella dehongliadau digidol ar draws safleoedd hanesyddol yng Nghymru.

Ymateb cychwynnol: Derbyn mewn egwyddor

Mae perfformiad masnachol Cadw, sy'n cael ei yrru gan ymgyrchoedd marchnata arobryn a gwelliannau i brofiad ymwelwyr, wedi tyfu'n sylweddol. 2019/20 oedd y flwyddyn fwyaf llwyddiannus yn hanes Cadw, gan gynhyrchu'r incwm mwyaf erioed,

ychydig dros £8 miliwn. Rhagwelwyd y byddai'r incwm wedi cyrraedd £8.2 miliwn erbyn diwedd mis Mawrth 2020, ond arweiniodd stormydd mis Chwefror a'r achosion o COVID-19 at gau'r safleoedd.

Mae Cadw wedi cael ei effeithio'n ddifrifol gan y pandemig byd-eang, gyda safleoedd wedi gorfod cau i ymwelwyr am y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Mae'r effaith hirdymor yn parhau'n ansicr. Fodd bynnag, nod Cadw yw gwella ei berfformiad masnachol, gan gynnwys refeniw, a'i gyfathrebiadau yn gyffredinol drwy fuddsoddi mewn brand newydd a system rheoli busnes digidol newydd. Bydd hyn nid yn unig yn caniatáu iddo weithredu ei weithgareddau manwerthu'n fwy effeithlon, ond bydd hefyd yn darparu gwell dealltwriaeth o anghenion a disgwyliadau ymwelwyr, gyda hynny yn ei dro yn gwella'i allu i ddarparu gweithgareddau masnachol a marchnata wedi'u targedu'n well yn sylweddol. Mae aelodau anweithredol Cadw o'r Bwrdd (sy'n meddu ar amrywiaeth helaeth o brofiad yn y sector – gan gynnwys gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol) hefyd yn darparu cymorth allweddol wrth ddatblygu Cynllun Datblygu Cynulleidfa newydd a fydd yn ceisio lleoli Cadw yn well a chynyddu nifer yr ymwelwyr wrth i Gymru wella o'r pandemig.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid yn parhau ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol ym mha raglenni cyllido rhanbarthol ac amaethyddol bynnag a fydd ar gael yn sgil ymadawiad y DU o'r UE.

Ymateb cychwynnol: Derbyn mewn egwyddor

Mae Cadw yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod darpariaeth briodol yn cael ei gwneud ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol mewn polisïau a fframweithiau defnydd tir gwledig llywodraeth Cymru yn y dyfodol ôl-Brexit. Mae staff Cadw yn cynnal trafodaethau parhaus â chydweithwyr yn yr adran defnydd tir gwledig i'r perwyl hwn. Hyd yma, mae'r trafodaethau hyn wedi arwain at gynnig darpariaeth ariannu ychwanegol ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol o fewn y trefniadau pontio ôl-Brexit a fydd yn disodli'r Cynllun Datblygu Gwledig. Mae hyn o ganlyniad i fwy o gyfleoedd i ehangu'r ddarpariaeth ariannu i rai erthyglau o'r Cynllun Datblygu Gwledig y tu hwnt i'r hyn a ganiatawyd yn flaenorol o dan reoliadau'r UE.

Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt mewn perthynas â chynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy Cymru a bydd Cadw yn ymateb yn fewnol i'r ymgynghoriad presennol ar y Papur Gwyn ar Amaethyddiaeth yng Nghymru.

Mae staff Cadw hefyd mewn cysylltiad rheolaidd â'u cymheiriaid yn y gweinyddiaethau datganoledig eraill i sicrhau ein bod yn dysgu cymaint â phosibl o'r sefyllfaoedd sy'n datblygu mewn mannau eraill yn y DU.

**Argymhelliad 15.** Dylai'r Gweinidog sbarduno adolygiad o'r hyn a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad diwylliant a thlodi y Farwnes Andrews i ddysgu pa arfer da y gellir ei rannu, pa wersi a ddysgwyd a pha gamau pellach y mae angen eu cymryd i weithredu'r argymhellion.

Ymateb cychwynnol: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio tuag at argymhellion adroddiad diwylliant a thlodi'r Farwnes Andrews. Mae'r rhaglen Cyfuno wedi bod yn cyflawni yn erbyn yr argymhellion ers nifer o flynyddoedd ac mae wedi llwyddo i fodloni deg o 33 argymhelliad yn yr adroddiad, gyda dau arall yn cael eu disodli.

Roedd yr argymhellion a gyflawnwyd yn cynnwys Llywodraeth Cymru yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i nodi atebion i rwystrau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth i bobl o ardaloedd difreintiedig wrth ymweld â safleoedd diwylliannol. Un arall oedd creu rhwydweithiau Cymunedol a Diwylliant, i gysylltu sefydliadau cymunedol a diwylliannol ar lefel leol, rhannu gwybodaeth ac adnoddau a chynllunio mentrau ar y cyd i fynd i'r afael â diffyg diwylliannol mewn cymunedau yn dilyn cynlluniau peilot llwyddiannus o raglen grant her Cyfuno.

Mae'r 20 argymhelliad sy'n weddill yn rhai tymor hwy ac mae angen newid systemig sylweddol i'w cyflawni, er enghraifft: sefydliadau diwylliannol i ymgorffori dulliau o wneud eu sefydliadau eu hunain yn fwy cyfeillgar i gymunedau a phlant drwy fentrau fel y model 'Meddiannu', a arloeswyd gan Kids in Museums.

Crëwyd y Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol i lywio'r rhaglen o'r cychwyn cyntaf, ac argymhellodd ei bod yn bryd i'r system adrodd gyd-fynd yn agosach â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i argymhelliad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn ystod yr ymgynghoriad "Minnau Hefyd" ym mis Rhagfyr 2019 i gynnal adolygiad o Cyfuno ac wedi dyrannu cyllid i gefnogi'r gwaith hwnnw o'r blaen. Cafodd hyn ei ail-gyfeirio at gymorth COVID ar ddechrau'r pandemig. Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad o'r rhaglen Cyfuno yn ystod 2021-22 a bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor olynol am ei chanfyddiadau yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanylach union natur yr "hyblygrwydd ychwanegol" y bydd Cadw'n ei gael yn y dyfodol, yn enwedig lle mae hyn yn wahanol i'r trefniadau a gynigir yn yr achos busnes a luniwyd ym mis Hydref 2017.

Ymateb cychwynnol: Derbyn mewn egwyddor

Mae'r Cyfarwyddwr Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon wedi cael cyfrifoldebau dirprwyedig, fel Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ar gyfer Cadw, ac mae cynllun busnes tair blynedd wedi'i baratoi. Mae'r Bwrdd yn cynnwys aelodau anweithredol ac mae'n craffu ar berfformiad Cadw yn erbyn ei dargedau cynllun busnes blynyddol ac yn cynghori Gweinidogion a'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn unol â hynny.

Mae hyblygrwydd arbennig o bwysig yn ymwneud â staffio a recriwtio, wedi'i gysylltu'n agos â pherfformiad masnachol sydd wedi gweld cynnydd cyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gyrraedd ychydig dros £8 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2019/2020. Dros y flwyddyn ddiwethaf, fodd bynnag, mae'n anochel fod y pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar hyn, gydag incwm Cadw wedi dioddef ergyd dros dro ar ôl cau ei henebion i ymwelwyr.

Mae Cadw bellach yn dod i ddiwedd ei gylch cynllun tair blynedd cyntaf a bydd cynllun newydd yn cael ei baratoi yn ystod ail hanner 2021 i'w ystyried gan Weinidogion yn dilyn cyngor gan Fwrdd Asiantaeth Fewnol Cadw.

Fel yr esboniwyd uchod, mae adroddiad blynyddol cyntaf Cadw ers sefydlu'r Bwrdd wedi'i gyhoeddi – mae'n rhoi trosolwg o waith a chyflawniadau Cadw yn 2019/2020.